Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STRATEGIC
MARKETING



# Arolwg o Ymwelwyr Cadw 2015
# Adroddiad y Prosiect

**Tudalen Cynnwys**


1. Crynodeb Gweithredol ........................................................................................ 2
2. Cefndir a Methodoleg ......................................................................................... 4
3. Canlyniadau ........................................................................................................ 7
4. Casgliadau a Goblygiadau i Cadw .................................................................. 34

# 1. Crynodeb Gweithredol

**Gwahaniaeth sylweddol yn y gyfran o ymwelwyr o'r tu allan i Gymru rhwng y tymhorau**

1.1 Mae nifer yr ymwelwyr â Chymru o weddill y DU a thramor yn uwch yn ystod y prif dymor o gymharu â'r tymor ysgwydd. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu ym mhroffil ymwelwyr Cadw yn ystod y prif dymor. Yn ystod y prif dymor, mae tri o bob pedwar (75%) ymwelydd o'r tu allan i Gymru, o gymharu â chyfran is (57%) yn ystod y tymor ysgwydd.

1.2 Eleni, mae’r gyfran o ymwelwyr tramor â safleoedd Cadw'n eithriadol o uchel (19%). Mae ymwelwyr wedi dod o wledydd pedwar ban y byd, a'r cyfrannau uchaf yn dod o farchnadoedd sy'n draddodiadol gryf i Gymru: gorllewin Ewrop gyfandirol a siaradwyr Saesneg sydd wedi dod o wledydd pell. Daeth 4% o ymwelwyr Cadw yr haf hwn o UDA, ac wedyn yr Almaen (3%), Awstralia (2%), Ffrainc (2%), a'r Iseldiroedd (2%).

**Gwahaniaeth yn y rhesymau dros ymweld â'r ardal**

1.3 Yn gyffredinol, mae dau o bob tri ymwelydd (68%) â safleoedd Cadw ar eu gwyliau, er bod hyn yn amrywio'n sylweddol o ardal i ardal yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr (87%) â gogledd Cymru ar eu gwyliau, o gymharu â chyfran is o lawer (47%) o ymwelwyr â safleoedd yn ne-ddwyrain Cymru.

**Cyfran uchel o ymwelwyr newydd i bob safle**

1.4 Mae'r rhan fwyaf (69%) o ymwelwyr â safleoedd Cadw yn ystod yr haf eleni yn ymweld â'r safle am y tro cyntaf. Mae'r canlyniadau'n debyg iawn i'r tymor ysgwydd yn 2015 a thymor yr haf yn 2013.

**Boddhad cyffredinol wedi'i gynnal**

1.5 Rhoddwyd sgôr o naw allan o ddeg ar gyfartaledd am foddhad cyffredinol ymwelwyr. Dyma'r un canlyniad ag a gafwyd yn nhymor ysgwydd 2015 a thymor yr haf yn 2013. Ond mae boddhad ymwelwyr yn dal i fod yn syndod, gan fod hanner (50%) o ymwelwyr yn dweud bod eu profiad yn well na’r disgwyl.

1.6 Y pedwar safle â'r sgôr uchaf am foddhad cyffredinol ymwelwyr yw Plas Mawr (9.5), Caerllion (9.4), Tyndyrn (9.4), a Blaenafon (9.3).

1.7 Mae staff Cadw yn cael sgôr uchel iawn unwaith eto, gyda sgôr o 9.6 am 'wybodaeth staff’ a sgôr o 9.5 am 'gyfeillgarwch staff’ ar gyfartaledd. Y sgôr holl bwysig am 'werth am arian' yw 9.1.

1.8 Unwaith eto, yr unig wendid yn y graddau yw 'addasrwydd i blant yn saith oed neu’n iau' (8.1).

**Ar y cyfan, mae pobl yn teithio pellteroedd llai o gymharu â chyfnodau arolygon eraill**

1.9 Mae tua dau o bob pum ymwelydd (39%) â safleoedd Cadw wedi teithio 10 milltir neu'n llai, ac mae traean (33%) arall wedi teithio rhwng 11 a 25 milltir. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o siwrneiau (72%) yn 25 milltir neu'n llai.

1.10 Mae hyn yn cymharu â chyfran is (61%) o siwrneiau yn ystod tymor ysgwydd 2015 a thymor yr haf yn 2013 a oedd yn 25 milltir neu'n llai.

**Cymysgedd o resymau gwahanol dros ymweld gyda phlant**

1.11 Mae gan rieni a neiniau a theidiau sy'n ymweld gyda phlant amrywiaeth o gymhellion dros ymweld, o ran yr hyn maent yn dymuno i'r plant ei ennill o'r ymweliad. Mae hyn yn amrywio rhwng ennyn diddordeb y plant mewn dysgu a mynd dim ond i gael hwyl. Mae'r rhan fwyaf (72%) o grwpiau sy'n ymweld gyda phlant yn gobeithio am gymysgedd o ddysgu a hwyl.

1.12 Mae'r canlyniadau'n amrywio o safle i safle. Ar y pegwn 'dysgu', mae pob ymwelydd (100%) â Chaerllion wedi rhoi rhagor o bwyslais ar eu plant yn dysgu rhywbeth nag ar gael hwyl. Mae Cydweli hefyd yn amlwg fel safle lle mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr (94%) yn rhoi rhagor o bwyslais ar eu plant yn dysgu rhywbeth.

1.13 Ar y pegwn 'hwyl', mae Castell Coch yn amlwg, gyda'r rhan fwyaf (71%) o rieni a neiniau a theidiau sy'n ymweld yn rhoi rhagor o bwyslais ar eu plant yn cael hwyl nag ar ddysgu rhywbeth. Yn yr un modd, mae tua dau o bob tri (64%) o ymwelwyr gyda phlant sy'n ymweld ag Abaty Tyndyrn yn rhoi rhagor o bwyslais ar agwedd hwyl yr ymweliad.

**Fformat y wybodaeth yn wreiddiol, ond nid yw'n fwy gwreiddiol ar safleoedd sydd â dehongliad gwell**

1.14 Mae tri o bob pum ymwelydd (60%) yn dweud bod fformat y wybodaeth yn yr atyniad yn 'wreiddiol ac yn apelgar'. Dyma'r un canlyniad ag a gafwyd yn arolwg y tymor ysgwydd yn 2015.

1.15 Fodd bynnag, fel yr oedd hefyd yn wir yn arolwg y tymor ysgwydd, nid yw safleoedd sydd â dehongliad gwell (lle roedd 56% o ymwelwyr yn dweud bod y fformat yn wreiddiol ac yn apelgar) yn gwneud yn well na safleoedd heb ddehongliad gwell (lle mae 62% yn dweud bod y fformat yn wreiddiol ac yn apelgar).

1.16 Mae Caerllion yn gwneud yn hynod o dda unwaith eto, fel y gwnaeth yn arolwg y tymor ysgwydd, gydag ymron i bob ymwelydd (97%) yn dweud bod y wybodaeth yn wreiddiol ac yn apelgar. Mae Blaenafon (94%) a Phlas Mawr (86%) hefyd yn gwneud yn dda iawn.

## 2. Cefndir a Methodoleg

**Cyd-destun yr ymchwil**

2.1 Yn 2008, comisiynodd Cadw arolwg o ymwelwyr mewn safleoedd detholedig sy'n cael eu staffio, er mwyn deall proffil ymwelwyr a'u profiadau. Defnyddiwyd arolwg 2008 o ymwelwyr yn feincnod ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Cynhaliwyd yr arolwg eto yn ystod yr haf yn 2011 a 2013.

2.2 Yn 2014, comisiynodd Cadw arolwg o *Foddhad ymwelwyr ac ymchwil amser drigo* er mwyn deall effaith dehongliad gwell ar hyd yr ymweliad a phrofiad ymwelwyr. Dywedodd 61% o ymwelwyr iddynt gael fformat y wybodaeth yn wreiddiol ac yn apelgar ar safleoedd sydd â dehongliad gwell, o gymharu â 36% ar safleoedd nad ydynt wedi cael eu gwella hyd yn hyn.

2.3 Yn 2015, comisiynodd Cadw ei *Arolwg ymwelwyr yn y tymor ysgwydd* cyntaf, er mwyn deall proffil ymwelwyr yn y tymor hwnnw, rhesymau dros ymweld, ac ym mha ffordd mae hyn yn wahanol yn ystod y prif dymor. Canfuom fod trigolion Cymru a'r grŵp rhwng 25 a 34 yn llawer mwy amlwg yn ystod y tymor ysgwydd.

2.4 Comisiynodd Cadw yr arolwg hwn o ymwelwyr yn ystod haf 2015 er mwyn adeiladu ar ganlyniadau arolygon diweddar.

**Sut y cynhaliwyd yr ymchwil hon yn ystod haf 2015?**

2.5 Bu Strategic Marketing yn gweithio gyda Chadw er mwyn llunio holiadur a oedd yn addas ar gyfer cyfweliadau wyneb yn wyneb ag ymwelwyr â safleoedd Cadw.

2.6 Cynhaliodd cyfwelwyr Strategic Marketing 2,563 o gyfweliadau ar safleoedd Cadw rhwng 19 Gorffennaf a 30 Awst 2015. Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad y cyfweliadau fesul safle:

| Safle | Nifer y cyfweliadau |
|---|---|
| Castell Biwmares | 202 |
| Gwaith Haearn Blaenafon | 108 |
| Caer a Baddonau Rhufeinig Caerllion | 116 |
| Castell Caernarfon | 201 |
| Castell Caerffili | 208 |
| Castell Coch | 193 |
| Castell Cas-gwent | 115 |
| Castell Cilgerran | 42 |
| Castell Conwy | 196 |
| Castell Cricieth | 103 |
| Castell Dinbych | 25 |
| Castell Harlech | 205 |
| Castell Cydweli | 99 |
| Llys yr Esgob Llandyfái | 14 |
| Castell Talacharn | 28 |
| Castell Oxwich | 10 |
| Plas Mawr | 100 |
| Castell Rhaglan | 190 |
| Castell Rhuddlan | 50 |
| Capel y Rug | 9 |
| Abaty Ystrad Fflur | 11 |
| Llys yr Esgob Tyddewi | 105 |
| Abaty Tyndyrn | 198 |
| Llys a Chastell Tretŵr | 11 |
| Abaty Glyn y Groes | 8 |
| Y Castell Gwyn | 16 |
| **Cyfanswm** | **2,563** |

### Strwythur y dadansoddiad

2.7 Lle bynnag bo hynny'n bosibl, mae'r siart ar gyfer pob cwestiwn yn dangos dadansoddiad o'r atebion fesul safle. Nid yw safleoedd lle mae'r sampl yn fach yn cael eu trin ar wahân yn nadansoddiad yr adroddiad hwn, ond caiff eu cyfweliadau eu cynnwys yn y cyfansymiau cyffredinol.

2.8 Ar gyfer cwestiynau mwy cymhleth, y cyfan rydym yn ei wneud yw dangos y canlyniadau cyffredinol ar gyfer yr holl safleoedd gyda'i gilydd, oherwydd y byddai'r siart yn rhy llawn ac annealladwy pe baem yn gwneud dadansoddiad o bob safle. Rydym wedi nodi unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y safleoedd yn y testun. Rydym hefyd wedi paratoi set o groes-dablau, lle y gellir gweld canlyniadau'r cwestiynau sydd ag atebion mesuradwy fesul safle.

2.9 Mae sylwadau pen agored a roddwyd gan ymatebwyr yn ychwanegu at ein dehongliad o'r canlyniadau, ac rydym yn defnyddio detholiad cytbwys o sylwadau drwyddi draw er mwyn dangos pwyntiau allweddol.

# 3. Canlyniadau

## Proffil Ymwelwyr

| Disgrifiad | 2015 (y prif dymor) | 2015 (y tymor ysgwydd) | 2013 (y prif dymor) |
|---|---|---|---|
| **Rhyw** | | | |
| Gwryw | 50% | 49% | 46% |
| Menyw | 50% | 51% | 54% |
| **Oedran** | | | |
| 0 – 7 | 12% | *Ni ellir cymharu'r cwestiwn* | *Ni ellir cymharu'r cwestiwn* |
| 8 – 15 | 13% | | |
| 16 – 24 | 7% | | |
| 25 – 34 | 11% | | |
| 35 – 44 | 17% | | |
| 45 – 54 | 15% | | |
| 55 – 64 | 11% | | |
| 65+ | 14% | | |
| **Grŵp economaidd-gymdeithasol** | | | |
| AB | 39% | 36% | 40% |
| C1 | 38% | 42% | 35% |
| C2 | 15% | 14% | 17% |
| DE | 8% | 8% | 8% |
| **Lle mae'n byw** | | | |
| Cymru | 25% | 43% | 24% |
| Gweddill y DU | 56% | 48% | 60% |
| Tramor | 19% | 9% | 16% |
| **Ethnigrwydd** | | | |
| Gwyn | 96% | 96% | 98% |
| Eraill | 4% | 4% | 2% |

*Mae canrannau ar gyfer grŵp economaidd-gymdeithasol wedi cael eu hailsylfaenu er mwyn anwybyddu ymatebwyr sy'n gwrthod ateb*

## Gwahaniaeth sylweddol yn y gyfran o ymwelwyr sydd o'r tu allan i Gymru rhwng y tymhorau

3.1 Mae nifer yr ymwelwyr â Chymru o weddill y DU a thramor yn uwch yn ystod y prif dymor o gymharu â'r tymor ysgwydd. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu ym mhroffil ymwelwyr Cadw yn ystod y prif dymor. Yn ystod y prif dymor, mae tri o bob pedwar (75%) ymwelydd yn dod o'r tu allan i Gymru, o gymharu â chyfran is (57%) yn ystod y tymor ysgwydd.


3.2 Eleni, y gyfran o ymwelwyr tramor i safleoedd Cadw'n eithriadol o uchel (19%). Mae ymwelwyr wedi dod o wledydd pedwar ban y byd, gyda'r cyfrannau uchaf yn dod o farchnadoedd sy'n draddodiadol gryf i Gymru – gorllewin Ewrop gyfandirol a siaradwyr Saesneg sydd wedi dod o wledydd pell. Daeth 4% o ymwelwyr Cadw yr haf hwn o UDA, ac wedyn yr Almaen (3%), Awstralia (2%), Ffrainc (2%), a'r Iseldiroedd (2%).

## Proffil oedran

3.3 Mae'r proffil oedran wedi cael ei fesur mewn ffordd wahanol ar gyfer yr arolwg hwn, gydag ymatebwyr yn cael eu gofyn i nodi'r nifer o bobl yn eu grŵp sydd ym mhob categori oedran. Yn flaenorol, gofynnwyd am oedran yr *ymatebwr* yn unig, a chan bod ymatebwyr bob amser yn oedolion, nid oedd hyn yn mesur canran y plant a oedd yn ymweld â'r safle.

3.4 Mae un o bob pedwar (25%) ymwelydd (nid grwpiau) yn blant o dan 16 mlwydd oed, ac mae'r ganran hon wedi'i rhannu'n weddol gyfartal rhwng plant o dan wyth mlwydd oed (12%) a phlant dros wyth mlwydd oed (13%).

# Prif bwrpas yr ymweliad â'r ardal




**Mae gan gestyll mewn ardaloedd gwyliau broffil ymwelwyr gwahanol**


3.5 O ran prif bwrpas yr ymweliad â'r dre neu'r ardal lle y lleolir y safle, mae cestyll mewn ardaloedd gwyliau poblogaidd yn denu cyfansoddiad gwahanol o ymwelwyr.

3.6 Mae Castell Cricieth (yn agos i Eryri), Llys yr Esgob Tyddewi (Sir Benfro), Castell Harlech (Eryri), Castell Caernarfon (yn agos i Eryri), a Chastell Biwmares (Ynys Môn) wedi denu'r mwyafrif helaeth o'u hymwelwyr yn ystod yr haf o bobl sydd ar wyliau yn yr ardal.

3.7 O gymharu, mae cymysgedd mwy cytbwys o ymwelwyr i safleoedd yn ne-ddwyrain Cymru, rhwng ymwelwyr sy'n aros i ffwrdd o gartref a phobl sydd wedi dod i'r ardal am y dydd.

3.8 Ar y cyfan, mae gwahaniaeth dirnadwy rhwng tymor yr haf a'r tymor ysgwydd. Mae'r rhan fwyaf (68%) o ymwelwyr yn ystod yr haf ar eu gwyliau yn yr ardal, o gymharu â chyfran is o lawer (41%) yn ystod y tymor ysgwydd.

## Pellter y siwrnai i'r safle




**Ar y cyfan, mae pobl yn teithio pellteroedd llai o gymharu â chyfnodau arolygon eraill**

3.9 Mae tua dau o bob pum ymwelydd (39%) â safleoedd Cadw wedi teithio 10 milltir neu'n llai, ac mae traean (33%) arall wedi teithio rhwng 11 a 25 milltir. Mae hyn yn golygu bod yn rhan fwyaf o siwrneiau (72%) yn 25 milltir neu'n llai.

3.10 Mae hyn yn cymharu â chyfran is (61%) o siwrneiau yn ystod tymor ysgwydd 2015 a thymor yr haf 2013 a oedd yn 25 milltir neu'n llai.

## Math o grŵp



### Cynrychiolaeth gref gan deuluoedd

3.11 Mae safleoedd Cadw'n denu llawer o deuluoedd gyda phlant – ymron i hanner pob grŵp o ymwelwyr (44%). Mae hyn yn debyg iawn i ganlyniadau'r tymor ysgwydd yn 2015 a thymor yr haf 2013.

3.12 Mae nifer y teuluoedd gyda phlant iau (34%[1] o bob grŵp) cryn dipyn yn fwy na'r nifer o deuluoedd gyda phlant hŷn (15%[2] o bob grŵp). Gall hyn awgrymu y credir bod apêl safleoedd Cadw yn fwy addas ar gyfer plant iau, ond mae canlyniadau nes ymlaen yn Q17 yn dweud fel arall. Mae'n bosibl y gall y gwahaniaeth yn y proffil fod yn adlewyrchiad o'r nifer o bobl yn eu harddegau nad ydynt am fynd allan am y dydd gyda'u rhieni.

### Amrywiaethau rhwng y gwahanol safleoedd

3.13 Mae amrywiaethau yn y proffil ymwelwyr rhwng y gwahanol safleoedd. Mae Cricieth yn denu llawer o deuluoedd gyda phlant (60% o grwpiau o ymwelwyr), ond mae gan Blas Mawr ac Abaty Tyndyrn apêl wahanol, sydd yn llai ar gyfer plant ac yn fwy ar gyfer cyplau a grwpiau o ffrindiau, o gymharu â'r rhan fwyaf o safleoedd.


*"Mae'n gyfle i'r plant chwilota"*
Teulu gyda phlant ifanc, Cricieth

*"Yn addas imi ond nid ar gyfer y plant"*
Cwpl, Plas Mawr

[1] Cafwyd y ffigur hwn trwy ychwanegu'r teuluoedd gyda phlant iau (29%) a'r teuluoedd gyda phlant iau a phlant hŷn (5%) yn y croes-dablau.

[2] Cafwyd y ffigur hwn trwy ychwanegu'r teuluoedd gyda phlant hŷn (10%) a'r teuluoedd gyda phlant iau a phlant hŷn (5%) yn y croes-dablau.


# Ymwelwyr newydd, cyn-ymwelwyr ac ymwelwyr rheolaidd




## Cyfran uchel o ymwelwyr newydd i bob safle

3.14 Mae denu ymwelwyr newydd yn gallu golygu llawer o waith marchnata mewn marchnad orlawn. Mae'r rhan fwyaf (69%) o ymwelwyr â safleoedd Cadw yr haf hwn yn ymweld â'r safle am y tro cyntaf. Mae'r canlyniadau'n debyg iawn i'r tymor ysgwydd yn 2015 a thymor yr haf 2013.

## Ymweld ag atyniadau hanesyddol eraill




*D.S. Mae'r safleoedd a restrir ar y siart uchod yn dangos lle mae cyfweliadau wedi cael eu cynnal, yn hytrach na'r atyniadau hanesyddol mae'r ymatebwyr wedi ymweld â nhw o bosib yn ystod y tri mis diwethaf*


### Mwy o ymwelwyr yn teithio o gwmpas atyniadau hanesyddol yn ystod misoedd yr haf

3.15 Mae tua dau o bob tri (63%) o ymwelwyr â safleoedd Cadw yn ystod yr haf eleni wedi ymweld ag atyniad hanesyddol arall yn y tri mis cyn eu hymweliad. Mae hyn yn debyg iawn i haf 2013 ond yn wahanol i dymor ysgwydd 2015. Roedd hwn yn dilyn misoedd y gaeaf, ac felly roedd cyfran llawer is (43%) o

ymwelwyr wedi ymweld ag atyniadau hanesyddol eraill yn ystod y tri mis blaenorol.

3.16 Mae Plas Mawr yn amlwg fel safle sy'n denu ymwelwyr sydd hefyd yn ymweld ag atyniadau hanesyddol eraill yn rheolaidd. Roedd hanner (50%) o'i ymwelwyr yn ystod yr haf eleni wedi ymweld â thri neu fwy o safleoedd hanesyddol eraill yn ystod y tri mis blaenorol.

## Dylanwadau ar y penderfyniad i ymweld




### Canlyniadau tebyg i arolygon blaenorol

3.17 Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar bobl i ymweld â safle Cadw mewn trefn debyg iawn i arolwg y prif dymor yn 2013 ac arolwg y tymor ysgwydd yn 2015. Mae'n glir bod diddordeb cyffredinol mewn cestyll/safleoedd hanesyddol (63% o ymatebwyr) yn parhau i fod y ffactor dylanwadu a nodwyd yn amlaf.

*"Dw i'n dwlu ar edrych ar y lleoedd tân a dychmygu sut oedd bywyd iddyn nhw"*
Teulu gyda phlant ifanc, Rhaglan

**Gwahaniaethau rhwng y safleoedd**


3.18 Mae Plas Mawr wedi denu cyfran uwch o lawer o ymwelwyr sydd â diddordeb yn niwylliant/hanes Cymru na'r safleoedd eraill – 63% o'i ymwelwyr.

*"Bywydau domestig y gorffennol"*
Teulu heb blant, Plas Mawr

3.19 Ceir ymwelwyr sydd am 'ddarganfod a dysgu mwy am y safle hwn' yn fwy aml yng Nghaerllion (34% o ymwelwyr), Tyddewi (31%), a Chastell Coch (29%).

*"Hanes yr adeilad"*
Grŵp a drefnwyd, Tyddewi

*"Mae'n gastell tylwyth teg go iawn, wedi'i drwytho mewn hanes"*
Teulu gyda phlant hŷn, Castell Coch



**Mae'n glir bod diddordeb mewn cestyll/safleoedd hanesyddol yn parhau i fod y dylanwad unigol pwysicaf ar gyfer ymwelwyr**

3.20 O ran y ffactor unigol pwysicaf sy'n effeithio ar y penderfyniad i ymweld â'r safle, mae diddordeb mewn cestyll/safleoedd hanesyddol yn parhau i fod y dylanwad unigol pwysicaf (44% o ymatebwyr), ac roedd hyn yn wir mewn arolygon diweddar eraill o ymwelwyr.


3.21 Mae rhywfaint o amrywiaeth rhwng y safleoedd. Mae gan Abaty Tyndyrn y gyfradd uchaf o ymwelwyr (20%) sy'n dweud mai diddordeb yn niwylliant/hanes Cymru yw'r dylanwad unigol pwysicaf , ond mae'r gyfran sy'n nodi dylanwad plant yno yn is o lawer na'r cyfartaledd (5% o grwpiau).

3.22 Mae dylanwad plant ar ei huchaf yng Nghydweli (21% o grwpiau), Castell Coch (19%), a Chaerllion (19%).

*"Y peth gorau oedd gweld y plant yn ei fwynhau"*
Teulu gyda phlant ifanc, Castell Coch

*"Roedd y plant yn mwynhau mynd i mewn i'r holl wahanol ystafelloedd ac allan"*
Teulu gyda phlant iau a phlant hŷn, Cydweli

## Ysgogiad i ddod gyda phlant




### Amrywiaeth o resymau gwahanol dros ymweld gyda phlant

3.23 Mae gan rieni a neiniau a theidiau sy'n ymweld â safleoedd Cadw gymhellion gwahanol i ymweld o ran yr hyn maent yn dymuno i'r plant ei ennill o'r

ymweliad. Mae hyn yn amrywio rhwng ennyn diddordeb y plant mewn dysgu a mynd dim ond i gael hwyl. Mae'r rhan fwyaf (72%) o grwpiau sy'n ymweld gyda phlant yn gobeithio am gymysgedd o ddysgu a hwyl.

3.24 Mae'r canlyniadau'n amrywio o safle i safle. Ar y pegwn dysgu, mae pob ymwelydd (100%) â Chaerllion wedi rhoi rhagor o bwyslais ar eu plant yn dysgu rhywbeth nag ar gael hwyl. Mae Cydweli hefyd yn amlwg fel safle lle mae'r rhan fwyaf (94%) o ymwelwyr yn rhoi rhagor o bwyslais ar eu plant yn dysgu rhywbeth.


*"Rhyngweithiol – mae plant yn gallu cyffwrdd â phethau a dysgu"*
Teulu gyda phlant ifanc, Caerllion

3.25 Ar y pegwn 'hwyl', mae Castell Coch yn amlwg, gyda'r rhan fwyaf (71%) o rieni a neiniau a theidiau yn rhoi rhagor o bwyslais ar eu plant yn cael hwyl nag ar ddysgu rhywbeth. Yn yr un modd, mae tua dau o bob tri (64%) o ymwelwyr gyda phlant sy'n ymweld ag Abaty Tyndyrn yn rhoi rhagor o bwyslais ar agwedd hwyl yr ymweliad.

*"Roedd y plant yn hoffi dringo'r tŵr"*
Teulu gyda phlant ifanc, Castell Coch

*Y rhan orau oedd gweld y pleser ar wynebau'r plant"*
Teulu gyda phlant ifanc, Castell Coch

## Ffynhonnell ymwybyddiaeth




### Mae ymwybyddiaeth yn tarddu o nifer o ffynonellau

3.26 Ni ellir cymharu canlyniadau Q13 uchod yn uniongyrchol ag arolygon blaenorol, gan fod rhai o'r opsiynau megis 'ymweliad blaenorol' a 'gwelais i fe/roeddwn i'n mynd heibio iddo' ag anogair am y tro cyntaf.

3.27 Mae dwy brif ffynhonnell ymwybyddiaeth o'r safle – 'byw yn yr ardal/wedi gwybod amdani erioed' (27%) a 'gair ar y stryd' (21%) – yn weddol gyffredin, ac mae'n anodd weithiau i ymatebwyr nodi mewn arolwg sut a ble yn union roedd y tro cyntaf iddynt glywed am atyniad.

3.28 Ymhlith y ffynonellau ymwybyddiaeth mwy penodol a roddwyd, mae ffynonellau ar-lein ac oddi ar-lein wedi chwarae rôl wrth godi ymwybyddiaeth. Dyma'r safleoedd lle mae gwefan Cadw wedi codi ymwybyddiaeth fwyaf:

- Cydweli (10% o ymatebwyr)
- Plas Mawr (10%)
- Caerllion (9%)
- Caerffili (8%)


3.29 Dyma'r safleoedd lle mae'n debyg bod taflenni sy'n benodol i'r safle wedi codi ymwybyddiaeth fwyaf:

- Plas Mawr (27%)
- Caerllion (16%)
- Cricieth (15%)
- Harlech (15%)
- Biwmares (15%)

3.30 Mae pedwar o'r pum safle uchaf hyn o ran ymwybyddiaeth trwy daflenni yng ngogledd Cymru.

3.31 Yn gyffredinol, mae'r ymwybyddiaeth a godwyd trwy daflenni (13% o ymwelwyr) yn uwch nag yn y tymor ysgwydd (7%), ac mae codi ymwybyddiaeth trwy'r wefan (6%) ychydig yn is nag yn y tymor ysgwydd (9%) Gallai hyn fod yn adlewyrchiad o'r gyfran uwch o bobl sydd ar eu gwyliau yn ystod yr haf, sy'n teithio pellteroedd llai yn ystod y dydd a chasglu taflenni pan fyddant yn aros yn yr ardal leol.

## Y profiad o gymharu â'r disgwyliadau




### Cryn dipyn yn well na'r disgwyliadau


3.32 Yn aml, mae ymwelwyr â safleoedd Cadw yn cael eu siomi o'r ochr orau gan eu profiadau. Mae hanner (50%) o ymwelwyr yn dweud bod eu profiad yn llawer gwell na'r disgwyl.

3.33 Yn ôl pob golwg, Plas Mawr yw'r profiad sy'n synnu mwyaf, gyda'r mwyafrif helaeth (85%) o'i ymwelwyr yn dweud bod eu profiad yn llawer gwell na'r disgwyl.

**Nid ymwelwyr newydd yn unig sy'n cael profiad sy'n well na'r disgwyl**

3.34 Mae canlyniadau'n amrywio yn dibynnu a yw'r ymatebwr wedi mynd i'r safle o'r blaen; fodd bynnag, nid ymwelwyr newydd yn unig sy'n cael eu synnu. Mae cyfran sylweddol (28%) o'r rhai sydd wedi ymweld â'r safle yn ystod y ddwy flynedd diwethaf yn dweud bod eu hymweliad yn llawer gwell na'r disgwyl. Mae tua dau o bob pump (39%) o'r rhai a oedd wedi ymweld yn flaenorol, ond nid o fewn y ddwy flynedd diwethaf, yn dweud bod eu hymweliad yn llawer gwell na'r disgwyl.

## Graddoli agweddau eraill ar y profiad



**Boddhad cyffredinol uchel wedi'i gynnal**

3.35 Rhoddwyd sgôr o 9.0 allan o 10 ar gyfartaledd am foddhad cyffredinol ymwelwyr. Dyma'r un canlyniad ag a gafwyd yn nhymor ysgwydd 2015 a thymor yr haf 2013.

3.36 Y pedwar safle â'r sgôr uchaf am foddhad cyffredinol ymwelwyr yw Plas Mawr (9.5), Caerllion (9.4), Tyndyrn (9.4), a Blaenafon (9.3).

3.37 Ym Mhlas Mawr, mae ymwelwyr yn gwneud sylwadau agored am ansawdd y canllaw sain, trefn yr ystafelloedd (yn enwedig y gegin), a'r dodrefn.

*"Roeddwn yn dwlu ar y sylw a roddwyd i fanylion"*
Ymwelydd ar ei ben ei hun, Plas Mawr

*"Y wybodaeth sain – roedden ni'n gallu mynd wrth ein pwysau"*
Cwpl, Plas Mawr

*"Y gegin oedd y rhan a wnaethom fwynhau fwyaf"*
Cwpl, Plas Mawr

3.38 Mae ymwelwyr â Chaerllion yn frwd ynglŷn â'r effeithiau golau arbennig yn y pwll, ac am ddysgu am yr hanes yn gyffredinol.

*"Y baddonau Rhufeinig – y tafluniadau golau"*
Teulu gyda phlant ifanc, Caerllion

*"Syfrdanol, dw i'n dwlu ar y nofwyr a'r gerddoriaeth. Atyniad gwych"*
Cwpl, Caerllion

*"Mor llawn hanes a gwybodaeth"*
Ffrindiau, Caerllion

3.39 Mae ymwelwyr ag Abaty Tyndyrn yn cael eu synnu gan faint yr abaty, a'r cyfle i gerdded o'i gwmpas yn dawel, gan ddychmygu sut le oedd yn arfer bod. Mae rhai yn cael teimlad o barchedig ofn hyd yn oed.

*"Mae'n wych edrych arno."Mae'n adfail gwych ac iddo hanes. Mae'n rhoi teimlad o barchedig ofn imi"*
Cwpl, Abaty Tyndyrn

*"Rydyn ni i gyd yn dwlu ar y lle hwn. Dyma'r lle gorau imi ei weld erioed - yr hanes, y prydferthwch, a'r golygfeydd. Does dim byd gwell yn unlle"*
Grŵp a drefnwyd, Abaty Tyndyrn

*"Y cyfle i gerdded o gwmpas y lle. Gallwch chi fod yn rhan ohono"*
Ffrindiau, Abaty Tyndyrn

3.40 Mae ymwelwyr â Blaenafon yn mwynhau'r atgynhyrchiadau, yr effeithiau sain, a'r bythynnod. Maent yn mwynhau dysgu am yr hanes yn y ffordd hon a gweld sut roedd pobl yn arfer byw.

*"Mae'n mynd â fi'n ôl i 1947"*
Ymwelydd ar ei ben ei hun, Blaenafon

*"Yr atgynhyrchiad a'r ffordd mae pawb wedi gwisgo"*
Teulu gyda phlant hŷn, Blaenafon

*"Gweld y bythynnod a sut roedd pobl yn byw"*
Cwpl, Blaenafon

**Mae staff yn parhau i gael sgôr uchel iawn**

3.41 Unwaith eto, mae staff Cadw yn derbyn sgôr uchel. Y sgôr am wybodaeth staff yw 9.6 ar gyfartaledd a'r sgôr am gyfeillgarwch staff yw 9.5. Mae'r sgoriau'n uchel iawn ar draws yr holl safleoedd.

*"Mae'r staff yn barod iawn eu cymwynas"*
Cwpl, Rhaglan

*"Mae'r staff yn wybodus iawn"*
Cwpl, Ystrad Fflur

*"Mae'r staff yn wych"*
Teulu gyda phlant hŷn, Plas Mawr

**Gwerth arian**

3.42 Mae gwerth arian yn agwedd bwysig iawn ar ymweliad, ac mae hon yn cael sgôr o 9.1 ar gyfartaledd. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau rhwng y gwahanol safleoedd. Mae'r sgoriau uchaf ym Mhlas Mawr, Caerllion a Blaenafon (9.7 i bob un).

*"Lle gwych. Wedi'i gadw a'i adfer mor dda"*
Cwpl, Caerllion

3.43 Mae'r sgoriau isaf yng Nghas-gwent (8.5) a Chonwy (8.8) – yr unig ddau safle sy'n cael sgôr o lai na naw allan o ddeg.

*"Mae pris mynediad yn ddrud"*
Cwpl, Cas-gwent

**Addasrwydd ar gyfer plant**

3.44 Unwaith eto, yr unig wendid yn y sgoriau yw 'addasrwydd i blant yn saith oed neu iau' (8.1). Mae'r sgoriau'n amrywio'n sylweddol o safle i safle. Ar yr ochr gadarnhaol, mae Caerllion (9.1 ar gyfartaledd), Blaenafon (8.9), Cas-gwent (8.8) a Rhaglan (8.8) i gyd yn cael sgôr uchel.

3.45 Yn achos Caerllion a Blaenafon, mae'n debyg eu bod yn addas ar gyfer plant oherwydd yr elfennau rhyngweithiol a'r adloniant. Yng Nghas-gwent a Rhaglan, mae'r pwyslais ar roi llawer o le i blant ifanc er mwyn iddynt redeg o gwmpas yn ddiogel.

*"Mae plant wrth eu bodd, llawer o hwyl. Dw i'n dwlu ar y rhyfel. Diwrnod allan arbennig o dda"*
Teulu gyda phlant ifanc, Blaenafon

*"Rhyngweithio da ar gyfer y plant"*
Teulu a ffrindiau, Caerllion

*"Mae'n wych ar gyfer plant ac mor ddiddorol."Maent yn gallu teimlo a chyffwrdd â phethau"*
Teulu gyda phlant ifanc, Caerllion

*"Mae gan y plant y lle i redeg o gwmpas"*
Teulu gyda phlant ifanc, Cas-gwent

*"Mae'r plant yn rhydd i redeg o gwmpas"*
Teulu gyda phlant ifanc, Rhaglan

3.46 Ar begwn arall y raddfa, mae problemau ynglŷn ag addasrwydd canfyddedig ar gyfer plant ifanc ym Mhlas Mawr (6.7), Caernarfon (7.3), Tyddewi (7.3), a Harlech (7.4).

3.47 Ym Mhlas Mawr a Thyddewi, mae'n debyg bod hyn oherwydd bod yr atyniadau'n cael eu hystyried yn fwy diddorol i oedolion.

3.48 Yng Nghastell Caernarfon a Chastell Harlech, nid y ffaith nad ydynt yn ddiddorol i blant yw'r broblem, ond nid ydynt yn cael eu hystyried yn ddiogel ar gyfer plant sy'n cerdded (grisiau) nac yn hawdd ar gyfer defnyddio cadair wthio. Yn anffodus, nid oedd mynediad ar gyfer cadeiriau gwthio yn flaenoriaeth i benseiri cestyll; fodd bynnag, gellid gwella addasrwydd ar gyfer plant trwy ddarparu cyfleusterau newid cewynnau, er enghraifft.


*"Grisiau tro gyda phlant bach"*
Teulu gyda phlant iau a phlant hŷn, Caernarfon

*"Anodd pan fo gennych un plentyn mewn bygi"*
Teulu gyda phlant ifanc, Caernarfon

*"Diogelwch ar gyfer plant"*
Teulu gyda phlant iau a phlant hŷn, Harlech

*"Nid oes cyfleusterau newid cewynnau ar gael"*
Teulu gyda phlant ifanc, Caernarfon

## Hyd yr ymweliad â'r atyniad





**Mae hyd yr ymweliad yn hwy mewn safleoedd sydd â dehongliad gwell**

3.49 Hyd yr ymweliad â safleoedd Cadw yn gyffredinol yn ystod haf 2015 yw 1.3 awr ar gyfartaledd; mae hyn yn cymharu â'r 1.1 awr yn ystod misoedd oerach y tymor ysgwydd a'r 1.5 awr ym mhrif dymor 2014.

3.50 Mae Castell Caerffili (hyd ymweliad o 1.7 awr ar gyfartaledd), Castell Caernarfon (1.7 awr) a Chastell Coch (1.6 awr) yn amlwg fel y safleoedd sydd â'r hydoedd ymweliad hiraf ar gyfartaledd. Mae gan bob un o'r tri safle ddehongliad gwell. Hyd yr ymweliad ar gyfartaledd ar safleoedd sydd â

dehongliad gwell yw tua 1.5 awr – mae hyn yn hirach na safleoedd heb ddehongliad gwell (1.2 awr).

## Ydy'r wybodaeth a roddwyd cystal â'r disgwyl?



**Q19 "I ba raddau wnaeth yr wybodaeth sydd ar gael wrth ichi gerdded o amgylch y castell fodloni'ch disgwyliadau?"**

**Unwaith eto, mae'r canlyniadau'n syndod ar gyfer safleoedd sydd â dehongliad gwell**

3.51 Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn atyniadau Cadw at ei gilydd cystal neu'n well na'r disgwyl (87% o ymatebwyr). Fodd bynnag, nid yw safleoedd sydd â dehongliad gwell (Conwy, Caerffili, Castell Coch, Caernarfon a Harlech) yn gwneud yn well na safleoedd nad oes ganddynt ddehongliad gwell. Mae hyn yn efelychu canlyniadau'r arolwg yn y tymor ysgwydd yn 2015.

### Mae'r wybodaeth ryngweithiol yn creu argraff fawr ar bobl sy'n ymweld â Chaerllion

3.52 Mae Caerllion yn cael sgôr dda iawn, gyda'r rhan fwyaf (83%) o ymwelwyr yn dweud bod y wybodaeth yn well na'r disgwyl. Mae ymwelwyr yn gwneud sylwadau ar addasrwydd y wybodaeth ryngweithiol ar gyfer pob oedran a'r ffordd glir mae'r wybodaeth yn cael ei threfnu.

*"Y sgriniau rhyngweithiol"*
Cwpl, Caerllion

*"Mae gwybodaeth ymhob man. Rydych chi'n gallu ei theimlo o'ch cwmpas i gyd"*
Cwpl, Caerllion

*"Mae'r tu mewn yn creu argraff fawr arnoch chi. Llawer o wybodaeth. Y safle orau imi ymweld ag ef"*
Cwpl, Caerllion

*"Mor llawn gwybodaeth, a dw i'n dwlu ar y byrddau siarad"*
Ffrindiau, Caerllion

### 'Y cyfan sydd angen ei wybod' ym Mlaenafon

3.53 Mae'r wybodaeth sydd ar gael ym Mlaenafon hefyd yn rhagori ar ddisgwyliadau'r rhan fwyaf (65%) o ymwelwyr. Mae ymwelwyr yn dweud bod y wybodaeth yn rhoi popeth sydd angen ei wybod iddynt. Mae llawer hefyd yn gwneud sylwadau ar yr effeithiau sain.

*"Rhoddodd ef fywyd i'r lle"*
Teulu gyda phlant ifanc, Blaenafon

*Mae llawer o ffyrdd gwahanol o ddysgu am y lle – y cyfan sydd ei angen arnon ni, a gallen ni ofyn os oes angen mwy"*
Teulu gyda phlant hŷn, Blaenafon

*"Effeithiau sain gwych"*
Cwpl, Blaenafon

### Canllaw sain gwych ym Mhlas Mawr


3.54 Y prif reswm bod y wybodaeth ym Mhlas Mawr yn rhagori ar y disgwyliadau yw ansawdd y canllaw sain – mae'n llawn o wybodaeth, yn hawdd ei ddilyn, ac mae'n cynnwys hiwmor da ac yn rhoi bywyd i'r atyniad. Mae rhai ymwelwyr o dramor yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y cynlluniau ar y llawer yn eu hiaith eu hunain.

*"Gwnes i wir mwynhau'r canllaw sain"*
Ymwelydd ar ei ben ei hun, Plas Mawr

*"Llawn hiwmor a gwybodaeth"*
Cwpl, Plas Mawr

*"Y cynllun llawr Japaneaidd"*
Cwpl, Plas Mawr

## Fformat y wybodaeth




**Fformat gwreiddiol, ond nid yw'n fwy gwreiddiol ar safleoedd sydd â dehongliad gwell**

3.55 Mae tri o bob pum ymwelydd (60%) yn dweud bod fformat y wybodaeth yn yr atyniad yn 'wreiddiol ac yn apelgar'. Dyma'r un canlyniad ag a gafwyd yn arolwg y tymor ysgwydd yn 2015.

3.56 Fodd bynnag, fel yr oedd hefyd yn wir yn achos arolwg y tymor ysgwydd, nid yw safleoedd sydd â dehongliad gwell (Conwy, Caerffili, Castell Coch, Caernarfon a Harlech) yn gwneud yn well na safleoedd nad oes ganddynt ddehongliad gwell.

3.57 Mae Caerllion yn gwneud yn hynod o dda unwaith eto, fel y gwnaeth yn arolwg y tymor ysgwydd, gydag ymron i bob ymwelydd (97%) yn dweud bod y


wybodaeth yn wreiddiol ac yn apelgar. Mae Blaenafon a Phlas Mawr hefyd yn gwneud yn dda iawn.

*"Canllaw sain gwych ag iddo opsiynau"*
Cwpl, Plas Mawr

*"Apelgar iawn [y wybodaeth] ar gyfer pob oedran"*
Teulu gyda phlant ifanc, Caerllion

*"Mae'r cyfan sydd arnoch chi ei wybod yma"*
Ffrindiau, Blaenafon

## Y tebygrwydd o ddod yn ôl




**Mae'r tebygrwydd o ddod yn ôl yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar y math o ymwelydd**

3.58 Gan fod cymaint o ymwelwyr (68%) ar eu gwyliau, mae'r tebygrwydd o'u dod yn ôl o fewn y 12 mis nesaf yn dibynnu yn ôl pob tebyg ar iddynt fynd ar wyliau eto yn yr un ardal yn ystod y cyfnod hwnnw, os ydynt yn byw yn rhy bell i deithio mewn un diwrnod. Mae mwy na hanner (57%) o bobl sy'n dod am y dydd yn debygol o ddod yn ôl i'r un atyniad o fewn 12 mis, o gymharu â chyfran is o lawer (22%) o bobl sydd ar eu gwyliau. Mae hyn yn debyg i ganlyniadau arolwg haf 2013.

3.59 Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng proffiliau ymwelwyr yn esbonio pam mai safleoedd yn ne-ddwyrain Cymru yn bennaf sydd ar frig y siart uchod (mae ganddynt y gyfran uchaf o bobl sy'n dod am y dydd), a pham mae gan safleoedd yng ngogledd Cymru gyfran uchel o ymatebwyr sy'n 'annhebygol iawn' o ddod yn ôl o fewn 12 mis.

## Ymwybyddiaeth o Cadw



### Yr un ymwybyddiaeth o Cadw ag yr oedd yn 2013

3.60 Roedd tua hanner (51%) yr ymatebwyr yn ymwybodol o Cadw cyn cyrraedd yr atyniad. Mae hyn bron â bod yr un nifer â chanlyniad arolwg 2013 (50%).

# 4. Casgliadau a Goblygiadau i Cadw

4.1 Rydym yn cloi yma gyda chasgliadau'r ymchwil a'r goblygiadau i Cadw.

## Gwahaniaethau ym mhroffil ymwelwyr

**Mae cyfansoddiad marchnadoedd gogledd Cymru a de-ddwyrain Cymru yn wahanol yn ystod yr haf**

4.2 Ar safleoedd gogledd Cymru ac yn Nhyddewi yn Sir Benfro, mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr ar eu gwyliau. I'r gwrthwyneb, mae safleoedd yn ne-ddwyrain Cymru yn denu cymysgedd o bobl sydd ar eu gwyliau a phobl sydd wedi dod am y dydd. Mae gan hyn oblygiadau o ran sut a ble i hyrwyddo atyniadau Cadw yng ngwahanol ardaloedd Cymru.

4.3 Ar y cyfan, mae pobl sy'n ymweld â safleoedd yng ngogledd Cymru wedi gwneud siwrnai lai i'r safle, oherwydd eu bod eisoes wedi gwneud eu siwrnai hir er mwyn cyrraedd eu llety yn yr ardal. Maent yn fwy tebygol o gael eu dylanwadu gan daflenni nag ymwelwyr â safleoedd yn ne-ddwyrain Cymru. Er bod gofyn i ymatebwyr ble y gwnaethant godi'u taflen y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hon, dangosodd *Ymchwil i Anghenion Gwybodaeth* ar ran Cadw a Chroeso Cymru yn 2013 fod codi taflenni yn y llety yn parhau i fod yn ffynhonnell ymwybyddiaeth o atyniadau sy’n bwysig iawn ar gyfer ymwelwyr sydd ar eu gwyliau yng Nghymru.

4.4 Mae safleoedd yn ne-ddwyrain Cymru yn denu amrywiaeth fwy cytbwys o ymwelwyr sydd ar eu gwyliau a phobl sydd wedi dod am y dydd. Ar y cyfan, mae pobl sy'n dod am y dydd yn teithio'n bellach na phobl sydd ar eu gwyliau, felly mae mwy o le i safleoedd yn ne-ddwyrain Cymru taflu rhwyd fwy llydan trwy ddefnyddio deunyddiau oddi ar-lein.

## Disgwyliadau'r ymweliad a boddhad

**Beth allai fod yn rhwystro pobl rhag dod?**

4.5 Unwaith eto, mae'r sgoriau am foddhad ymwelwyr wedi bod yn uchel iawn, ac felly y mae'r profiadau o'u cymharu â'r disgwyliadau. Mae'n gofyn y cwestiwn, beth mae pobl yn disgwyl ei brofi ar safleoedd Cadw?

4.6 Gallai deall y mater hwn fod yn bwysig iawn er mwyn tynnu rhwystrau ym meddyliau pobl nad ydynt yn ymweld â safleoedd Cadw, gan ei bod yn bosibl eu bod yn camddeall y profiad ac yn aros i ffwrdd o ganlyniad. Mae angen rhagor o ymchwil i'r mater hwn.

## Y staff

**Unwaith eto wedi cael sgôr uchel iawn**

4.7 Unwaith eto, mae staff ar safleoedd Cadw wedi derbyn sgôr uchel iawn, am gyfeillgarwch a gwybodaeth am eu safle. Byddai rhoi'r adborth hwn iddynt yn fuddiol.

## Plant

**Pa mor addas ar gyfer plant o dan wyth mlwydd oed?**

4.8 Mae cynrychiolaeth dda o hyd gan deuluoedd gyda phlant ifanc ym mhroffil yr ymwelwyr, ond mae addasrwydd canfyddedig atyniadau Cadw ar gyfer plant o dan wyth mlwydd oed yn parhau i fod yn wendid bach ar rai safleoedd.

**Gwahaniaethau rhwng y profiad a ddisgwylir**

4.9 Mae disgwyliadau rhieni neu neiniau a theidiau sy'n ymweld gyda phlant yn amrywio’n sylweddol o safle i safle, a dylid ystyried hyn wrth ddatblygu'r gwaith o gynnig a hyrwyddo safleoedd unigol. Mae ymwelwyr â Chaerllion a Chydweli yn benodol yn gobeithio y bydd eu plant yn dysgu, ond ar y pegwn arall, cael hwyl yw'r gobaith yng Nghastell Coch.

## Dehongliad gwell

**Fyddai buddsoddi mewn safleoedd eraill yn fuddiol?**

4.10 Fel yr oedd yn wir yn arolwg y tymor ysgwydd, mae pobl sy'n ymweld â safleoedd sydd â dehongliad gwell yn aros dwywaith cyhyd ar gyfartaledd nag ar safleoedd nad oes ganddynt ddehongliad gwell. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud yn well o ran y wybodaeth yn rhagori ar y disgwyl, neu fod yn wreiddiol ac yn apelgar.

4.11 Unwaith eto, mae Caerllion wedi gwneud yn dda iawn yn yr arolwg hwn, fel y mae Plas Mawr a Blaenafon. Byddai'n fuddiol ystyried yr hyn y gellid ei ddysgu o'r dehongliad a'r staff yno er mwyn ei efelychu ar safleoedd eraill.